**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1045
Ein cyf/Our ref VG/03894/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

24 Mawrth 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr pellach dyddiedig 16 Chwefror ar ran y Deisebwr mewn perthynas â Deiseb P-05-1045 ynghylch penderfyniadau ar y cyd ac adolygiadau o gynlluniau gofal iechyd meddwl misol.

Bydd y sylwadau a'r cynigion ychwanegol sydd wedi dod i law yn parhau i lywio ein gwaith fel yr eglurwyd yn ein hymateb blaenorol. Byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon ag arweinwyr ein rhaglen iechyd meddwl er mwyn cefnogi eu gwaith hwythau.

Hefyd hoffem eich sicrhau y bydd yr holl waith yn y maes hwn yn y dyfodol yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, y mae profiadau perthnasol yn rhan o'u bywydau, er mwyn iddynt gael y cyfle i lywio ymateb parhaus ein polisïau. Hefyd hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ail-bwysleisio pa mor bwysig yw hi bod y deisebwr yn trafod ei bryderon yn uniongyrchol gyda'i fwrdd iechyd i sicrhau bod yr ymchwiliadau i'r digwyddiad hwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'w brofiadau.

Diolch ichi unwaith yn rhagor am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.